# Siarter Myfyrwyr
# 2024 – 2025



Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

UM Wrecsam
Wrexham SU

# *Ym Mhrifysgol Wrecsam (PW), ein nod yw bod yn gymuned ddysg sy'n cynnig her academaidd ac addysgu ysbrydoledig a gefnogir gan gefnogaeth bersonol. Rydym wedi ymrwymo i:*

- Greu cymuned academaidd sy'n croesawu myfyrwyr o bob cefndir, yn rhoi myfyrwyr wrth galon yr hyn yr ydym ni'n ei wneud a'u cyfarparu nhw ar gyfer bywyd, gwaith a llwyddiant.
- Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i ddeall eu hanghenion a thynnu ar greadigedd, gwybodaeth ac ymrwymiad ein staff i greu amgylcheddau dysgu rhagorol sy'n cefnogi myfyrwyr i ennill canlyniadau academaidd llwyddiannus, sy'n gyrru llwyddiant gyrfa.

Mae ein Siarter Myfyrwyr, sydd wedi'i datblygu ar y cyd gan y Brifysgol, Myfyrwyr a'r Undeb Myfyrwyr, yn rhan bwysig o sut ydym yn sefydlu a chynnal disgwyliadau clir y ddwy ochr ar gyfer profiad myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Mae'n nodi beth allwn ei ddisgwyl gan ein gilydd fel partneriaid mewn cymuned ddysg a hynny waeth pa gampws, sefydliad partner na'r modd astudio.

# Eich astudiaethau

Gan weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, bydd Prifysgol Wrecsam yn sicrhau cymuned ddysg broffesiynol, gynhyrchiol a chadarnhaol lle caiff myfyrwyr y cyfle i ddatblygu eu huchelgeisiau gyrfa a chyflawni eu potensial academaidd.

*Fel Prifysgol, byddwn yn:*

- Darparu safonau addysgu ac asesu priodol o uchel, arweiniad academaidd priodol a chwricwlwm hyblyg, cyfoes sy'n cael ei arwain gan ymchwil.
- Darparu cymuned, sy'n galluogi myfyrwyr i ymgysylltu ag ystod eang o gyfleoedd dysgu trwy broses fyfyriol a datblygiadol, lle mae'r myfyrwyr ac yna'r graddedigion, yn edrych i ddatblygu a mynegi yn effeithiol eu nodweddion, safbwyntiau, profiadau a sgiliau personol, gan eu paratoi at astudiaeth ôl-raddedig a gwell llwyddiant yn y dyfodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i gynllunio a gweithredu rhaglenni dysgu.
- Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio, ymgymryd ag ymchwil a chael mynediad at gymorth i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogi myfyrwyr a darparu gwybodaeth ar sut gall fyfyrwyr fanteisio ar gyfleoedd i astudio dramor, e.e. drwy Taith: y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu.
- Rhoi cyfle i gymryd rhan mewn dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith, trwy ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol, yn cynnwys lleoliadau gwaith, prosiectau cysylltiedig â gwaith a gwirfoddoli.

- Darparu profiad myfyrwyr gwell trwy fuddsoddiad parhaus yn ein cyfleusterau, adnoddau dysgu ac amgylchedd dysgu addysgol.
- Darparu tiwtor personol neu fecanwaith tebyg i roi cyfle i chi drafod eich cynnydd academaidd, eich cyfeirio at gymorth arbenigol ac annog profiadau dysgu ehangach a chyfleoedd i wella astudiaethau a datblygu sgiliau cyflogadwyedd, gan alluogi dysgwyr i gyflawni llwyddiant gyrfa.
- Gosod terfyn amser clir ar gyfer darparu adborth ar waith academaidd.
- Cyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol drwy leihau gwastraff a lleihau ein hôl-troed carbon a thrwy sawl maes o'n cwricwlwm.

*Fel myfyriwr, byddaf yn:*

- Cymryd cyfrifoldeb am reoli fy nysg annibynnol fy hun ac ymgysylltu'n weithredol â'm rhaglen.
- Cymryd rhan yn yr holl sesiynau dysgu ac addysgu, yn cynnwys sesiynau cydamserol, sesiynau anghydamserol ac wyneb yn wyneb, tiwtorialau personol, seminarau a chyfarfodydd gyda thiwtoriaid.
- Mynd i arholiadau a chyflwyno gwaith yn brydlon, gan fanteisio'n llawn ar adborth, cyfarwyddyd a chyngor.
- Darllen llawlyfrau fy nghwrs a'm modiwlau a pharatoi at sesiynau dysgu ac addysgu a darllen testunau gosod ymlaen llaw.
- Ymgymryd â chael eich tiwtora neu fecanwaith tebyg yn cynnwys myfyrio ar gynnydd academaidd, mynd i diwtorialau personol a chymryd rhan weithredol ynddynt a gweithredu ar y cyngor a roddir.

- Dysgu cymaint ag y gallaf am y cyfleusterau, adnoddau a chymorth sydd ar gael i mi yn fy mhrifysgol ac ymgysylltu bob amser mewn ffordd broffesiynol gyda thimau gwasanaethau academaidd a phroffesiynol, sydd yno i fy nghefnogi ar fy nhaith ddysgu.
-
- Cydymffurfio â holl reoliadau, polisïau, a gweithdrefnau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, ac ymddwyn fel aelod cyfrifol o gymuned y Brifysgol.
- Cadw at bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad partner y cofrestrais fel myfyriwr yn y Brifysgol drwyddo.
- Cyflawni fy astudiaethau academaidd mewn modd onest a phroffesiynol.

*Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:*

- Cyflogi swyddogion myfyrwyr etholedig llawn amser i ehangu ac amddiffyn eich hawliau fel myfyrwyr y Brifysgol.
- Cefnogi gweithgareddau sy'n datblygu ymhellach sgiliau allgyrsiol myfyrwyr a chyfrannu at ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd.


# Fframwaith Dysgu Gweithredol (ALF)

Mae'r brifysgol yn defnyddio Fframwaith Dysgu Gweithredol Prifysgol Wrecsam (PW), set o egwyddorion ar gyfer dysgu ac addysgu wedi'u datblygu gan y brifysgol, ac ar ei chyfer. Mae'r egwyddorion hyn yn llywio ein hagweddau at astudio, yn cynnwys ein hagwedd at gynnwys, darpariaeth ac asesiad eich modiwlau, a sut ydym yn eich cefnogi ac yn ymgysylltu â chi. Bydd pob myfyriwr yn PW yn gweithio o fewn tair egwyddor:

- **Ymgysylltu â myfyrwyr** - mae gweithgareddau dysgu yn cefnogi ymgysylltiad gweithredol a chreadigol â myfyrwyr ac ymdeimlad o berthyn.
- **Dysgu hyblyg a hygyrch** - gall unrhyw un gyrchu gweithgareddau dysgu, yn cynnwys y rhai hynny gydag anghenion dysgu penodol.
- **Asesu arloesol, hyblyg a hygyrch** - ystod o ffyrdd i fyfyrwyr arddangos dysg a dealltwriaeth.

Yn hanfodol, wrth wraidd yr ALF mae'r defnydd priodol o dechnolegau digidol ar draws pob agwedd ar addysgu, dysgu ac asesu er mwyn cefnogi ymarfer gweithredol, hygyrch, hyblyg a chynhwysol. Mae dysgu cyfunol (ALF) yn galluogi profiad dysgu hyblyg a hygyrch i chi y gellir ei addasu'n rhwydd os yw agweddau ar ddysgu ar y campws yn cael eu cyfyngu am unrhyw reswm. Mae ALF yn cynnwys cyfleoedd dysgu cydamserol (dysgu mewn amser real) ac anghydamserol (cyrchu deunyddiau cwrs sy'n cael eu datblygu ymlaen llaw), a byddwch yn cael sesiynau wedi'u hamserlennu ar y campws dros dri diwrnod mewn wythnos. Mae Amgylchedd Dysgu Rhithiol (VLE) Moodle yn eich galluogi i gyrchu dysgu y tu allan i sesiynau dosbarth rheolaidd. Mae yna ddisgwyliad a chyfrifoldeb i chi ymgysylltu â phob agwedd ar ddysgu cyfunol, a fydd yn sicrhau eich bod yn rhoi'r cyfle gorau i chi lwyddo yn eich astudiaethau.

Yn allweddol i ALF yw'r ffaith ei fod yn ymgorffori ffyrdd o ddysgu ac addysgu sy'n **creu a chefnogi synnwyr o berthyn** i fyfyrwyr. Byddwch hefyd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig gyda'ch carfan mewn mannau mwy cymdeithasol.




# Llwyddiant eich Gyrfa: Fframwaith Sgiliau'r Brifysgol

Mae'r Brifysgol yn darparu myfyrwyr â chyfleoedd datblygu gyrfa a chyflogadwyedd, gwasanaethau cymorth ac adnoddau yr anogir dysgwyr i ymgysylltu â nhw'n barhaus.

Pwrpas allweddol Fframwaith Sgiliau'r Brifysgol yw paratoi pob myfyriwr i gyflawni ei ddyheadau gyrfa a'i botensial proffesiynol. Wedi'i wreiddio mewn rhaglenni, mae Fframwaith Sgiliau'r Brifysgol yn cefnogi'r gymuned ddysgu trwy bartneriaeth rhwng dysgwyr, academyddion, cydweithwyr cymorth proffesiynol a diwydiant, gan baratoi myfyrwyr yn y ffordd orau bosib i symud ymlaen i'r byd gwaith, hunangyflogaeth, creu menter newydd a/neu astudiaeth bellach.

https://wrexham.ac.uk/cy/gyrfaoedd/yr-hyn-rydym-yn-ei-gynnig/

# Cyfathrebu gyda'n gilydd

Mae'r Brifysgol yn gwasanaethu ei rhwymedigaethau cytundebol i fyfyrwyr, a bydd yn cydymffurfio â'i hymrwymiadau dan gyfraith prynwyr fel yr amlinellir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Wrth wneud hynny, byddant yn gweithio i ddiogelu buddiannau myfyrwyr wrth ymateb i amgylchiadau megis newidiadau sylweddol i sut caiff cwrs ei gyflwyno neu derfynu cwrs. Mae gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i ymateb i'r amgylchiadau hyn a fydd yn lliniaru'r effaith bosibl arnoch chi ac sy'n cydnabod gwahanol anghenion amrywiaeth ein myfyrwyr.

### *Fel Prifysgol, gwnawn y canlynol:*

- Cyn y broses ymrestru, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth glir am hyfforddiant cwrs, ffioedd a chyllid ac unrhyw gostau cwrs gorfodol cysylltiedig, ynghyd ag opsiynau talu a therfynau amser, ac yn rhoi syniad (lle bo modd) o gostau ar gyfer eitemau dewisol, yn unol ag arweiniad gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd - cyfeiriwch at y rheoliadau Ffioedd Dysgu ar ein gwefan a thudalennau'r cyrsiau unigol - https://wrexham.ac.uk/cy/
- Darparu gwybodaeth glir ynglŷn â chwrs astudio myfyriwr sy'n cynnwys gwybodaeth benodol am brif gysylltiadau, cyflwyno'r rhaglen a gofynion asesu.
- Gosod terfyn amser clir ar gyfer darparu adborth ar waith academaidd.
- Rhoi hysbysiad ymlaen llaw o amserlen myfyrwyr ac unrhyw newidiadau iddi.
- Galluogi myfyrwyr i ryngweithio â'r Brifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyfathrebu â myfyrwyr mor gyflym ac effeithiol â phosibl.
- Diogelu'r holl wybodaeth bersonol a ddarperir, i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU.

### *Fel Myfyriwr, byddaf yn:*

- Sicrhau fy mod wedi datgelu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau fy astudiaethau a sicrhau bod fy holl fanylion personol yn cael eu cadw'n gyfredol.
- Gwirio fy nghyfrif e-bost Prifysgol yn rheolaidd, ac ymateb yn brydlon i ohebiaeth gan y Brifysgol, yn enwedig yr ohebiaeth sy'n ymwneud â'm canlyniadau a dilyniant.
- Sicrhau fy mod yn ymwybodol o selerau ac amodau fy astudiaeth yn y Brifysgol, yn eu deall ac yn cydymffurfio â nhw.

### *Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:*

- Sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfathrebiad clir, gonest ac agored sy'n berthnasol iddynt.
- Gweithredu'n ddemocrataidd ac yn eglur yn unol â'i Gyfansoddiad a'i Reoliadau.

Noder: Dylai myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner gyfeirio at wefan a phorth dysgu y sefydliad lle cynhelir yr addysgu.

## A Wyddoch Chi?

Gall y Gwasanaethau TG, sydd wedi'u lleoli yng Nghanolfan Edward Llwyd, eich cefnogi chi i gysylltu eich e-bost myfyriwr â'ch e-bost personol.

Gallwch ddiweddaru eich manylion personol waeth lle yw eich lleoliad dysgu ar eich cofnod myfyriwr drwy glicio ar y porth MyUni.

# Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru/Astudiaeth Cyfrwng Cymraeg

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymroddedig i ehangu ei darpariaeth addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r brifysgol yn falch o'i gwreiddiau Cymreig ac yn cydnabod pwysigrwydd adlewyrchu iaith a diwylliant gogledd ddwyrain Cymru. Fel dinas fwyaf newydd Cymru rydym yn falch o annog yr holl fyfyrwyr i ymgysylltu â digwyddiadau diwylliannol Cymru megis yr Eisteddfod Genedlaethol a Gŵyl Focus Wales.

Rydym wedi ymrwymo i'n partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol - sefydliad cenedlaethol sy'n chwarae rôl allweddol mewn cynllunio, cynnal a datblygu addysg ac ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg. Penodwyd Pennaeth Datblygu Academaidd Cyfrwng Cymraeg ym mis Mai 2022 i wella a datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol. Mae'r swydd yn gweithredu fel pont rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Wrecsam i sicrhau datblygiad cyrsiau cyfrwng Cymraeg ac i wella'r gefnogaeth a'r cyfleoedd a gynigir i fyfyrwyr. Cafodd Strategaeth a Chynllun Academaidd cyfrwng Cymraeg sydd â chenhadaeth strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sail iddynt, eu rhoi ar waith ym mis Tachwedd 2022, y cyntaf o'u math.

Mae'r Brifysgol yn datblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae wedi ymrwymo i gynnig mwy o ddewis i fyfyrwyr sydd eisiau astudio yma trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae modiwlau Cymraeg yn y Gweithle yn cael eu cynnig i'r holl fyfyrwyr fel llwybr. Cynlluniwyd y modiwlau hyn i sicrhau bod graddedigion yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg a Saesneg o fewn cyd-destun proffesiynol dwyieithog. Mae'r modiwlau hyn yn cynnig cyd-destun cenedlaethol i Gymru a'r Gymraeg. Er enghraifft, o fis Medi 2023, bydd 40 credyd ar gael ar bob lefel o'r rhaglen Therapi Iaith a Lleferydd sy'n

golygu bod myfyrwyr sy'n dilyn y credydau hyn yn gallu gwneud cais am ysgoloriaeth cymhelliant Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Fel Prifysgol, byddwn yn:**

- Galluogi myfyrwyr i gyflwyno aseiniadau a chael adborth trwy gyfrwng y Gymraeg, waeth pa iaith maent yn derbyn eu haddysg.
- Cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg lle bynnag bo hynny'n bosibl - gall tîm eich rhaglen eich cynghori chi am hyn.
- Annog myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i ddilyn o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cael ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Cynnig tiwtora personol trwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.
- Cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach trwy ddosbarthiadau a modiwlau penodol, yn cynnwys eu Tystysgrif Sgiliau Iaith, mewn cydweithrediad â'n swyddfa gangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (https://colegcymraeg.ac.uk/)
- Sicrhau ein bod yn bodloni ein cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 2011 ac yn ystyried Safonau'r Gymraeg.
- Cynnig cyfle i fyfyrwyr gael gohebiaeth gan y Brifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ysbrydoli myfyrwyr i chwilio am ffyrdd y gallant ddefnyddio ac arddangos eu sgiliau Cymraeg yn eu llwybrau gyrfa yn y dyfodol.

# Eich Lles: Cymorth a Lles

Mae Prifysgol Wrecsam yn ymroddedig i greu amgylchedd cefnogol ac yn ymrwymedig i gefnogi eich iechyd a'ch lles yn ystod eich amser gyda ni. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut ydym yn bwriadu gwneud hyn drwy'r polisïau sydd gennym ni mewn lle ac o fewn ein Strategaeth Iechyd a Lles, sy'n gweithio tuag at agwedd Prifysgol gyfan at les.

Mae'r Brifysgol yn gosod Diogelwch Hunanladdiad wrth galon ein Prifysgol gan ei fod yn cael effaith ar sut mae myfyrwyr a staff yn teimlo ac yn gweithredu yn y Brifysgol.  Ein nod yw rhoi'r sgiliau a'r profiadau mae ein staff a'n myfyrwyr eu hangen i fyw bywydau boddhaol, buddiol a hapus. Rydym yn cymryd ymagwedd prifysgol gyfan at ddiogelwch hunanladdiad. Rydym wedi ymrwymo i atal hunanladdiad i bawb.

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i sicrhau bod pawb sydd â'r potensial i gyflawni mewn addysg uwch yn cael cyfle i wneud hynny, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, anabledd, rhywioldeb, hil neu gefndir cymdeithasol. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn ymroddedig i sicrhau ei bod yn bodloni ei chyfrifoldebau statudol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, diogelu, a nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**Prifysgol sy'n wybodus ynghylch Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)**

Mae'r Brifysgol wedi gweithio'n agos â Hwb ACE Cymru i ddod y Brifysgol gyntaf sy'n wybodus ynghylch TrACE (Trawma ac Ace). Golyga hyn y bydd diwylliant sy'n wybodus ynghylch trawma yn cael ei wreiddio trwy gydol y brifysgol ochr yn ochr â'r **ymrwymiad i ledaenu mynediad** a'r gwerthoedd o fod yn **hygyrch**, yn **gefnogol**, yn **arloesol** ac yn **uchelgeisiol.**

Bydd myfyrwyr a staff yn cael eu meithrin i ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a pherthynol sy'n cydnabod cryfderau ac yn hyrwyddo lles. Mae gwaith caled yn cael ei wneud y tu ôl i'r llenni i blethu ymarfer sy'n wybodus ynghylch trawma i'r brifysgol er mwyn sicrhau bod yna ddealltwriaeth bod trawma a thrallod yn gallu effeithio ar unrhyw un mewn amrywiol gyd-destunau (unigolyn, teulu, aelwyd, cymuned, amgylchedd ac ati). Byddwn yn trin ymatebion i drawma gyda charedigrwydd a thosturi ac yn cymryd camau i osgoi trawmateiddio neu aildrawmateiddio unigolion. Mae hon yn daith ac rydym yn dysgu mwy ac yn myfyrio wrth i ni symud ymlaen. Mae yna gyfleoedd i chi gyfrannu at y gwaith hwn drwy, er enghraifft ddod yn hyrwyddwr TrACE, ac i ddysgu i arwain gyda chwilfrydedd tosturiol a chysylltiad. Gall hyn ddigwydd o'r eiliad y byddwch yn camu trwy'r drysau ar eich diwrnod cyntaf i'r adeg pan fyddwch yn mentro i'r byd gwaith fel un o'n graddedigion.

Dolen i'r fideo Llywio'r Storm (Cymraeg): https://www.youtube.com/watch?v=3ucTbxX083g

Dolen i'r fideo Navigating the Storm (Saesneg): https://www.youtube.com/watch?v=uFSsE2qOnuw

***Fel Prifysgol, byddwn yn:***

- Sicrhau bod ystod o gefnogaeth ar gael drwy Bywyd Myfyrwyr a Champws ac yn rhoi mynediad llawn i chi. Bydd y gwasanaethau hyn yn hygyrch, yn ymatebol ac yn gynhwysol ac yn cynnwys cefnogaeth i'r rheiny sy'n gadael eu rhaglen.
- Sicrhau bod pob myfyriwr yn cael tiwtor personol neu gyfwerth waeth beth fo'i ddull astudio.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Undeb Myfyrwyr i gyflwyno ymgyrchoedd a mentrau o ansawdd uchel sy'n cefnogi iechyd a lles myfyrwyr.

- Sicrhau amgylchedd diogel yn unol â safonau Iechyd a Diogelwch a chyfrifoldebau diogelu.
- Darparu cyngor a gwybodaeth i helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu cyllid trwy'r tîm Cyllid Myfyrwyr a Chyngor Ariannol.
- Darparu cyngor ac arweiniad gyrfaoedd diduedd sy'n cefnogi lles myfyrwyr.

***Fel myfyriwr, byddaf yn:***

- Rhoi gwybod i'r Brifysgol o unrhyw absenoldeb, amgylchiadau, anghenion neu gyfyngiadau a allai effeithio ar fy nghyfranogiad yn y Brifysgol, pa un ai a yw hynny'n bodoli eisoes neu'n newydd, er mwyn i ni eich cefnogi chi'n llwyddiannus.
- Bod yn ofalus o sut all eich ymddygiad gael effaith ar eraill, a pharchu hynny, a thrin eraill yn gyfartal ac yn barchus, gan gymryd cydraddoldeb ac amrywiaeth o ddifrif, a chreu cymuned gampws gynhwysol."

***Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:***

- Cyflwyno ymgyrchoedd perthnasol a defnyddiol mewn perthynas ag iechyd a lles a rhoi gwybod i chi o'ch hawliau fel myfyrwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau myfyrwyr i sicrhau bod anghenion myfyrwyr yn cael eu bodloni.
- Rhoi cyngor am ddim, cyfrinachol a defnyddiol trwy ein hadran Cyngor Myfyrwyr – mae hyn yn cynnwys myfyrwyr mewn sefydliadau partner. Cysylltwch â ni trwy: SUAdvice@glyndwr.ac.uk
- Darparu cymorth i fyfyrwyr trwy ein Swyddogion Sabothol ac aelodau'r Cyngor Myfyrwyr.

- Darparu mentrau a chyfleoedd i fyfyrwyr ynglŷn ag iechyd meddwl megis hyfforddiant Atal Hunanladdiad a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.
- Adeiladu cymuned fyfyrwyr ddiogel, gynhwysol drwy hyrwyddo anghenion academaidd a lles personol myfyrwyr.
- Darparu myfyrwyr â'r cyfle i greu ac ymuno â chymdeithasau myfyrwyr a chlybiau chwaraeon a'u harwain.

# Cynrychioli Effeithiol: Eich Llais

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn ei phartneriaeth â myfyrwyr wrth iddynt weithio gyda'i gilydd i weithredu newid cadarnhaol i wella ansawdd addysgu a phrofiad myfyrwyr yn barhaus ym Mhrifysgol Wrecsam.

### *Fel Prifysgol, byddwn yn:*

- Cyflwyno mecanweithiau ar gyfer cynnwys myfyrwyr mewn prosesau ansawdd a chyfoethogi'r Brifysgol.
- Cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr etholedig fel partneriaid llawn ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol.
- Sicrhau bod cynrychiolaeth myfyrwyr yn cynnwys bob lefel yn y Brifysgol lle bynnag fo'n bosibl.
- Ymateb yn weithredol i adborth myfyrwyr a sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

### *Fel Myfyriwr, byddaf yn:*

- Ymgysylltu â chynrychiolwyr Cwrs a chynrychiolwyr Undeb Myfyrwyr er mwyn iddynt gynrychioli eich safbwyntiau'n gywir.
- Cwblhau asesiadau cwrs a modiwlau yn ôl yr angen.
- Cymryd rhan ym mhrosesau ethol yr Undeb Myfyrwyr i ethol cynrychiolwyr ar yr Undeb Myfyrwyr.

- Cymryd rhan yn yr holl fecanweithiau adborth perthnasol a ddefnyddir gan y Brifysgol, gan gynnwys Gwerthusiad Myfyrwyr o Fodiwlau (SEMs), yr Arolwg Mewnwelediadau Profiad Digidol, cysylltu â chynrychiolwyr myfyrwyr yn ogystal ag arolygon cenedlaethol, megis yr Arolwg Canlyniadau Graddedigion a'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS)

***Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:***

- Hwyluso system cynrychiolwyr cwrs ar draws y Brifysgol yn effeithiol, gan sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi.
- Cefnogi Swyddogion Sabothol a chynrychiolwyr myfyrwyr i gynrychioli'r corff myfyrwyr yn effeithiol ar bob pwyllgor y Brifysgol.
- Rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn cynrychioli myfyrwyr eraill trwy'r Cyngor Myfyrwyr, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, cynadleddau a chyflwyno syniadau a chynigion.
- Sicrhau system ethol dryloyw, wedi'i rheoli'n dda i sicrhau y gall myfyrwyr gymryd rhan yn llawn wrth ddewis eu cynrychiolwyr.
- Sicrhau bod popeth a wnawn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i gyfle cyfartal a'n cymuned myfyrwyr eang.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am fod yn gynrychiolydd myfyrwyr

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am etholiadau'r Undeb Myfyrwyr

Cliciwch yma i gael gwybod mwy am yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr

I gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwch gymryd rhan, cliciwch yma i weld y Polisi Cynnwys Myfyrwyr mewn Sicrhau Ansawdd

# Eich Pryderon: Gwneud iawn

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau profiad addysgol o ansawdd dda i'w holl fyfyrwyr, wedi'i gefnogi gan wasanaethau cefnogi a chyfleusterau academaidd, gweinyddol a lles priodol. Fodd bynnag, gellir cael achlysuron pan nad yw myfyrwyr yn fodlon â'r cyfleusterau addysgu a dysgu, neu'r gwasanaethau a ddarperir ac mae gennych hawl i gyflwyno cwyn.

***Fel Prifysgol, byddwn yn:***

- Sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at system effeithiol i ymdrin â chwynion heb fod yn ofni gwrthgyhuddiad neu duedd annheg.
- Sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at weithdrefnau a chymorth apeliadau academaidd ac amgylchiadau esgusodol trwy gydol y broses.
- Darparu gwybodaeth ynghylch sut a phryd gall myfyrwyr ddymuno cysylltu â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os nad ydynt yn fodlon â chanlyniad prosesau'r Brifysgol: https://www.oiahe.org.uk/media/2264/introtootheoia-students-jan-2019.pdf
- Darparu gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'r CCAUC (os yn briodol) https://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/ein-trefn-gwyno

***Fel myfyriwr, byddaf yn:***

- Dilyn prosesau'r Brifysgol yn gywir, gan ddarparu'r dystiolaeth hanfodol yn y terfynau amser penodol.
- Ymddwyn yn barchus a chwrtais os ydych yn rhan o unrhyw weithdrefn yn y Brifysgol.

***Bydd Undeb y Myfyrwyr yn:***

- Cynnig cyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfrinachol a theg drwy unrhyw weithdrefn apelio, cwyno neu gamymddygiad academaidd.
- Sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob panel cwynion ac apeliadau gan sicrhau bod yr holl brosesau yn deg a chyfiawn.
- Sicrhau cynrychiolaeth ar weithgorau'r Brifysgol wrth adolygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod myfyrwyr wrth galon y broses bob amser.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd a'r disgwyliadau a nodir yn y Siarter hon drwy gysylltu â:

**Undeb y Myfyrwyr** –
Union@wrecsam.ac.uk

**Ansawdd a Rheoleiddio -**
Quality@wrecsam.ac.uk

**Gweinyddiaeth Myfyrwyr -**
Studentadministration@wrecsam.ac.uk

**Swyddfa Partneriaethau -**
partnerships@wrecsam.ac.uk

Dylech hefyd gyfeirio at y Canllaw i Fyfyrwyr 2024-25 am wybodaeth ynghylch polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ac i'r llawlyfr rhaglen a modiwlau i gael gwybodaeth ynghylch eich cwrs penodol.

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Adolygu'r Siarter hon

**Adolygwyd y Siarter hon ddiwethaf ym mis Medi 2024 gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Wrecsam, a'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu. Fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd Academaidd ym mis Hydref 2024.**

**Anogir myfyrwyr i gysylltu â'r Undeb Myfyrwyr i gymryd rhan yn yr adolygiad nesaf ac i uchafu effaith y Siarter hon. Rydym yn galw'n barhaus am farn ein myfyrwyr trwy Fforymau Llais Myfyrwyr a phlatfformau adborth ar-lein.**

UM Wrecsam
Wrexham SU